

*Rhaglen Genedlaethol
Hyfforddiant Mewn-swydd
y Gymraeg*

*Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg yn Ail Iaith
(Gweithgareddau i Hyrwyddo Cymbelliant Disgyblion CA4)*

*Addysgu a Dysgu Effeithiol
yn CA4*

*Rhaglen Genedlaethol
Hyfforddiant Mewn-swydd
y Gymraeg*

*Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg yn Ail Iaith
(Gweithgareddau i Hyrwyddo Cymbelliant Disgyblion CA4)*

*Addysgu a Dysgu Effeithiol
yn CA4*

Argraffiad cyntaf Gorffennaf 2001
First published July 2001

© Uned Iaith Genedlaethol Cymru
© WJEC National Language Unit of Wales

Cyhoeddwyd gan Uned Iaith Genedlaethol Cymru CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX
Published by the WJEC National Language Unit of Wales
245 Western Avenue, Cardiff CF5 2YX

Mae Uned Iaith Genedlaethol Cymru yn rhan o WJEC/CBAC Cyf.,
cwmni a gyfyngir gan warant ac a reolir gan awdurdodau unedol Cymru.

ISBN I 86085 477 X

Argraffwyd gan Gwasg Gomer, Llandysul, Ceredigion SA44 4QL
Printed by Gwasg Gomer, Llandysul, Ceredigion SA44 4QL

CYFLWYNIAD

Bwriad y pecyn hwn yw cynnig syniadau i athrawon Cymraeg Ail iaith sy'n gweithio gyda disgyblion CA4 ynglŷn â'r math o weithgareddau sy'n taro deuddeg ar lawr y dosbarth.

Cynigir astudiaeth gyffredinol yn ymwneud ag ymdrin â dysgwyr cyndyn. Rhennir gweddill y pecyn yn astudiaethau ar wahân ar gyfer Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu gan gydnabod ar yr un pryd y dylid cyflwyno'r sgiliau hyn mewn modd integredig.

Ar ddechrau pob astudiaeth, cynhwysir elfennau cryno o theori addysgu'r Gymraeg yn ail iaith sy'n ategu'r gweithgareddau llawr dosbarth a gynigir. Hefyd, dyfynnir rhannau o Raglenni Astudio *Cwricwlwm 2000* sy'n perthnasu i'r gweithgareddau. Pwysleisir nad yw'r gweithgareddau hyn yn ymwneud â holl ofynion y Rhaglenni Astudio; yn hytrach, arweiniad a geir ynghylch arferion addysgu da sy'n arwain at hyrwyddo cymhelliant ymhlith disgyblion CA4.

Pecyn rhyngweithiol ydyw gyda chyfleoedd i athrawon ystyried eu rôl. Gellir defnyddio'r pecyn ar lefel sirol, clwstwr, ysgol gyfan neu'n annibynnol.

Richard Roberts
Hyfforddwr Ymgynghorol


CYDNABYDDIAETH

Lluniwyd y pecyn hwn gan Weithgor y Cydlynwyr Uwchradd, Cymraeg Ail iaith:

Rhodri Jones
Aled Loader
Richard Roberts
Debra Thomas
Enfys Thomas
Tina Thomas
Gareth Williams


Diolchir i David Martin, Gwasanaeth Cefnogi Cwricwlwm am ei ganiatâd i addasu Astudiaeth I.

Cydnabyddir cefnogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac awdurdodau addysg Cymru.



CYNNWYS

	Tudalen
Astudiaeth 1: Ymdrin â Dysgwyr Cyndyn	7
Astudiaeth 2: Gweithgareddau Llafaredd: Rhan 1 - Gwyllo a Gwranddo Rhan 2 - Gwaith Pâr/Gwaith Grŵp	11 11 38
Astudiaeth 3: Gweithgareddau Darllen	44
Astudiaeth 4: Gweithgareddau Ysgrifennu	54



ASTUDIAETH 1

Ymdrin â Dysgwyr Cyndyn

Addaswyd yr astudiaeth hon o bapur a baratowyd gan David Martin, Ymgynghorydd/Arolygydd Ieithoedd Modern, Gwasanaeth Cefnogi Cwricwlwm, awdurdodau addysg Y Fflint, Wrecsam, Dinbych a Chonwy (2000). Ymhelaethir ar y syniadau a gynigir isod yn Astudiaethau 2-4. Nodir bod tasgau ysgrifennu wedi'u cynnwys o dan y penawdau Llafaredd a Darllen yn yr astudiaeth hon.

1. Sefydlu arferion da wrth gyrraedd y dosbarth

- cyfarfod y disgyblion yn y coridor a hwythau i gerdded i mewn yn dawel
- pawb yn gwybod yn union ble maen nhw i fod i eistedd
- gwaith a deunyddiau eraill ar y desgiau'n barod ar gyfer y disgyblion

2. Gweithgareddau agoriadol - tawelu ynteu corddi

- **Gweithgareddau tawelu**
 - copïo (gweler rhif 3)
 - labelu, lliwio
 - gwrando a gweithio, e.e. gwrando ar dâp a chwaraeir yn dawel a chwblhau gridiau, adnabod/clywed geiriau allweddol/newydd, gwneud deigram neu lun wrth ddilyn cyfarwyddyd gan yr athro neu ar dâp
 - gwrando ar stori
 - gwylio clip o fideo
 - darllen ac atgynhyrchu, e.e. darllen paragraff byr, cofio cymaint â phosibl a'i atgynhyrchu'n gywir
 - dilyniannu, h.y. rhoi stori/deialog/llythyr sydd wedi'i dorri'n sribedi yn ôl yn ei d/threfn
- **Gweithgareddau corddi**
 - drilio llafar, dosbarth cyfan
 - cywiro gwaith gyda dosbarth cyfan
 - cystadlaethau
 - holiaduron
 - gwrando'n unig
 - actio
 - dosbarthu llyfrau/ffeiliau

3. Gweithgaredd dechreuol gwers

- copïo cynllun y wers, e.e.
 - ysgrifennu cynllun y wers 5 munud
 - dysgu geiriau/ymadroddion newydd 5 munud
 - chwarae rôl: archebu mewn caffi 10 munud
 - ymarfer siarad/darllen yn gyflym 5 munud
 - ysgrifennu adroddiad: y penwythnos 15 munud
 - chwarae gêm iaith 5 munud
 - gwirio beth a gyflawnwyd 5 munud

4. Targedau/Nodau cyraeddadwy i bob gwers

- ydyn nhw'n glir?
- ydyn nhw'n ymddangos yn gyraeddadwy yng nghynllun y wers?
- ydy'r disgyblion yn gwybod sut i gyrraedd y targed?, e.e. o safbwynt defnyddio sgiliau darllen/gwranddo, dysgu geirfa newydd etc.

5. Cymhelliant

Mae strategaethau fel y rhai isod yn hyrwyddo cymhelliant:

- sicrhau llwyddiant, h.y. ydy'r gwaith a ddarperir yn gyraeddadwy i bawb?
- targedau/nodau cyraeddadwy
- cynhaliath i helpu'r cof, e.e. geirfa ar furiau'r dosbarth, cardiau siarad wrth ymgymryd â gwaith pâr/grŵp etc.
- sialens briodol i'r disgyblion
- ennill gêm
- cywiro gwaith ysgrifennu'r athro a osodir ar uwchdaflunydd
- creu deunydd darllen ar gyfer dosbarthiadau eraill
- cael gwaith ysgrifennu wedi'i gyhoeddi, e.e. yng Nghylchgrawn IAW!
- gwyllo fideo
- defnyddio TGCh

6. Targedau enghreifftiol ar gyfer gwers

- defnyddio'r Gymraeg yn unig am bum munud
- dysgu wyth gair newydd
- darllen tair brawddeg ar goedd yn gywir
- ymgymryd â gwaith pâr yn hynod o dawel
- symud o un gweithgaredd i'r llall yn dawel
- defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell gyda disgybl arall a'r athro

7. Llafaredd - siarad

Dylid cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer patrymau iaith.

Gweithgareddau enghreifftiol

- ailadrodd patrymau ar ôl yr athro gan amrywio fel a ganlyn:
 - yn araf
 - yn gyflym
 - yn hapus/yn drist etc.
- ailadrodd patrymau ar ôl yr athro gan ymestyn o dipyn i beth
- gwaith pâr (gweler tud. 38)
- ymarferion siarad yn gyflymach, e.e. athro'n darllen rhestr o eiriau oddi ar y bwrdd gwyn gyda'r disgyblion yn ei amseru ac yna'n ailadrodd y gamp mewn parau gan amseru'i gilydd etc.
- disgyblion yn meddwl am feim i'w cynorthwyo i gofio geirfa arbennig

8. Defnyddio'r iaith darged

Ystyriaethau

- defnyddio'r Gymraeg yn naturiol gan ddechrau gydag ymadroddion a ddefnyddir yn fynych wrth gyfarwyddo gweithgareddau'r dosbarth
- defnyddio meim i hwyluso dealltwriaeth y disgyblion
- cynnal dealltwriaeth gan gynnig geirfa ar y mur/bwrdd gwyn
- cynnal cyfnodau, wedi'u hamseru, pan na chaniateir defnyddio'r Saesneg

9. Gwrando ac ymateb

- hyfforddi disgyblion yn y sgiliau gwrando, e.e. sylwi ar gliwiau megis geiriau sy'n swnio'n debyg i'r Saesneg, enwau pobl/lleoedd, rhifau etc.
- defnyddio'r botwm oedi fel bo'r disgyblion yn gweithio gyda'r tâp yn hytrach nag yn ei erbyn
- ymateb i elfennau gwrando tra'n defnyddio CD Rom
- defnyddio amrywiol dapiau gwrando er osgoi dibyniaeth y disgyblion ar lais yr athro
- chwarae tapiau'n dawel, nid yn uchel
- rhoi gwybod i'r disgyblion beth yw'r disgwyladau tra neu wedi'r gwrando

Gweithgareddau enghreifftiol

- dwylo i fyny pan ydych chi'n clywed ...
- oedi'r tâp yma ac acw a'r disgyblion i ysgrifennu'r gair/ymadrodd nesaf

- oedi'r tâp bob hyn a hyn a gofyn i'r disgyblion ailadrodd y gair/ddau air/tri gair diwethaf a glywyd
- gwrando ar dâp a chwblhau grid
- gweithgareddau dilyniannu
- llenwi bylchau tra'n gwrando
- cywiro sgript yn sgîl gwrando arni ar dâp

10. Darllen

Mae'n bwysig darparu adnoddau darllen amrywiol, ffeithiol a dychmygus, yn llyfrau cyfan ac yn ddarnau byrion.

Gweithgareddau enghreifftiol

- tanlinellu geirfa arbennig wrth ddarllen darn, e.e. ansoddeiriau, cymariaethau etc.
- llenwi bylchau
- dilyniannu
- cwblhau proffil o'u hadnabyddiaeth o berson enwog
- gêmau darllen, e.e. cywiro camgymeriadau bwriadol mewn testun

ASTUDIAETH 2

Llafaredd

Mae'r astudiaeth hon wedi'i rhannu ddwy. Mae'r rhan gyntaf yn canolbwyntio ar waith gwyllo a gwrando ac mae'r ail ran yn enghreifftio gwaith pâr a gwaith grŵp.

Rhan 1

Gwyllo a Gwrando



Canolbwyntia'r astudiaeth hon ar enghreifftio gweithgareddau sy'n ddiddorol ac yn gyffrous i ddisgyblion CA4 ac, ar yr un pryd, yn cyd-daro â gofynion *Cwricwlwm 2000* ac yn hwb i gymhelliant disgyblion. Ategir yr enghreifftiau a gynigir gan ymdriniaeth gryno o fethodoleg addysgu sgiliau gwyllo a gwrando.

Cwricwlwm 2000

1. Ystod	2. Sgiliau
<p>Dylid addysgu'r disgyblion i:</p> <ol style="list-style-type: none">wyllo a gwrando ar amrywiaeth o symbyliadau gweledol a chlyweledol gan gynnwys peth deunydd dilys, e.e. <i>edrych ar ran addas o raglen deledu / radio neu raglen ar gyfer dysgwyr; gwrando ar neges ffôn a'i throsglwyddo i'r derbynydd.</i>cyfrannu ac ymateb yn effeithiol i ystod amrywiol o symbyliadau.	<p>Dylid addysgu'r disgyblion i:</p> <ol style="list-style-type: none">wyllo a gwrando'n ofalus ar amrywiaeth o symbyliadau gweledol a chlyweledol gan sylwi ar yr iaith a ddefnyddir ac ar oslef ac ystum, e.e. <i>gwyllo rhan addas o raglen deledu a rhestru rhai gwahaniaethau rhwng iaith, goslef ac ystum y gwahanol gymeriadau.</i>adnabod amrywiadau yn y ffordd mae pobl o wahanol ardaloedd yn siarad ac adnabod rhai elfennau sydd wedi'u benthyc o'r Saesneg, e.e. <i>gwyllo rhan addas o opera sebon neu fideo ar gyfer dysgwyr a rhestru nodweddion iaith y gwahanol gymeriadau.</i>

Adnoddau i gyflawni'r gofynion hyn

Mae'r eglurluniau isod yn dangos yr ystod eang o adnoddau sydd ar gael i athrawon Cymraeg Ail Iaith. Sylwer na fwriadwyd rhai ohonynt yn benodol ar gyfer dysgwyr.



Athroniaeth defnyddio fideo i ddysgu iaith

Pwysleisia Jones (1995, tud. 10) hyblygrwydd fideo fel cyfrwng dysgu iaith. "Gellir seilio gwaith cymhleth ar raglen syml ei hiaith; gall y cymhleth fod yn ysgogiad i weithgaredd syml."

Pwysleisia sylwebyddion ym maes addysgu ieithoedd yr angen am hyfforddi disgyblion yn y sgiliau gwrando angenrheidiol a'r angen i strwythuro gweithgareddau gwrando yn ofalus. Adlewyrchir athroniaeth y sylwebyddion hyn yn *Meithrin Llafaredd yn y Dosbarth: Meithrin Sgiliau Gwrando* (CBAC 1994) lle cynigir arweiniad parthed y camau methodolegol o gyflwyno gwers wrando. Dyma gynnig addasiad o'r adran honno.

Gwers wrando ddwys

Dylid cynnal ymarferion gwrando'n rheolaidd er mwyn datblygu sgiliau gwrando'r disgyblion. Mae'r camau a nodir yma'n briodol ar gyfer deunyddiau a geir mewn adnoddau yn ogystal â deunydd a luniwyd gan athrawon eu hunain.

Pa fath o gyflwyniad?

- cyflwyniad byw, h.y. yr athro/athrawes yn cyflwyno'r darn, yn adrodd stori ac ati
- cyflwyniad ar dâp neu fideo/ffilm

Camau'r wers/rhan o'r wers

Cytunir yn gyffredinol y dylid rhannu'r wers yn dair rhan:

- cyn gwrando
- wrth wrando
- wedi'r gwrando

Cam 1: Cyn gwrando

Cyfnod o baratoi'r disgyblion ar gyfer y dasg yw hwn er mwyn creu disgwyliadau ynddynt a meithrin eu chwilfrydedd yn y testun. Rhaid gwneud yn sicr eu bod yn gwybod beth yw pwrpas y dasg, e.e. ydyn nhw'n mynd i ateb cwestiynau, llenwi gridiau, labelu lluniau, gorffen neges, ailadrodd beth a glywant etc.

Cam 2: Wrth wrando

Er mwyn eu meithrin i wrando'n ddwys, y mae'n hanfodol fod tasgau ac ymarferion wedi'u paratoi i gyd-fynd â'r hyn y gwrandewir arno. Gair i gall yma:

- ni ddylid gordefnyddio'r un math o dasg
- nid yw pob tasg yn addas ar gyfer pob math o destun
- sesiwn hyfforddi yw'r wers ac nid prawf, felly dylid caniatáu iddynt glywed y darn sawl gwaith ac mewn darnau byrion ar y tro
- gellir rhoi mwy o ganllawiau yn y tasgau a gynllunnir ar gyfer disgyblion llai galluog
- dylid hybu'r dysgwr i ymgymryd â nifer o dasgau ac ymarferion i feithrin gwrando'n fanwl

Cam 3: Wedi'r gwrando

Dylid rhoi cyfle i'r disgyblion wneud defnydd pellach o'r hyn a ddysgwyd wrth wrando:

- defnyddio'r wybodaeth i amcanion eraill, e.e. disgrifio'r broses, crynhoi'r wybodaeth ar lafar etc.
- tynnu sylw at nodweddion iaith a geirfa'r testun
- meithrin ymwybyddiaeth o acen, tafodiaith etc.

Ategir y fethodoleg a gynigir uchod yn adroddiad SPAEM, *Cynnydd yn y Gymraeg yn Ail Iaith, tud. 9 (1996)* " Manteisir fwyfwy ar ddefnydd pwrpasol o ddeunyddiau fideo i symbylu diddordeb a hwyluso'r weithred o ddysgu iaith. Ar adegau, mae'r defnydd ohonynt yn aneffeithlon, oherwydd diffyg ystyriaeth i waith rhagbaratoi a gwaith dilynol, ac o ganlyniad ni cheir y budd mwyaf ohonynt."

Pa fath o raglenni sy'n addas ar gyfer addysgu a dysgu iaith?

Rhaglenni gyda:

- digon o ailadrodd
- llun sy'n cyfleu ystyr
- lefel iaith gweddol sylfaenol
- digon o weithgareddau i gynnal diddordeb
- cynnwys sydd wedi'i deilwrio ar gyfer gwylwyr

G weithgaredd

Tynnwch restr o raglenni sy'n addas ar gyfer eu defnyddio gyda dysgwyr CA4.

Sgiliau allweddol

Mae pwyslais yn *Cwricwlwm 2000* ar y Sgiliau Allweddol. Mae'n bwysig darbwyllo'r disgyblion a'u rhieni fod dysgu'r Gymraeg yn cadarnhau gafael disgyblion ar y sgiliau hyn. Mae ymgymryd â thasgau gwylio a gwrando priodol yn fodd i ategu'r gafael hwn. "Defnyddia'r disgyblion offer sain a fideo yn fedrus i wella eu gwaith llafar ac i ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o iaith ..." (*Llawlyfr Arolygu Ysgolion* – Estyn, Adran 7.04)

Sgiliau gwrando

Mae'n bwysig hyfforddi'r disgyblion sut i wrando a thynnu eu sylw at y cynorthwyon a geir mewn darnau gwrando, e.e.

- sŵn neu synau cefndirol
- goslef lleisiau
- confensiynau sgwrs
- effeithiau sain arbennig a gynhyrchir gan siaradwyr, e.e. ebychiadau, sgrechfeydd etc.
- geiriau sy'n swnio'n debyg i eiriau yn iaith y gwrandawr
- geiriau sy'n swnio'n debyg i eiriau mewn ieithoedd eraill y mae'r gwrandawr yn gyfarwydd â hwy

Gweithgaredd

Gyda phartner, cwblhewch y dasg wrando isod a addaswyd o *Pecyn Hyfforddi Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion* (CBAC).

Nodiadau i'r hyfforddwr

- rhowch gyfle i aelodau cyrsiau HMS glywed y tâp sawl gwaith
- dangoswch bum cwestiwn iddynt ar y tro
- oedwch y tâp bob hyn a hyn
- ar ddiwedd yr ymarfer, chwaraewch ddarnau byrion o'r tâp ar y tro a gofynnwch i aelodau'r cwrs ei gyfieithu, ar lafar, yn dorfol i'r Gymraeg

Taflen 1

1. Ble mae'r sgwrs yn digwydd?
2. Sawl cymeriad sy'n y sgwrs?
3. Ceisiwch ddyfalu oedran y cymeriadau.
4. Ydyn nhw wedi cyfarfod o'r blaen?
5. Oedden nhw'n disgwyl gweld ei gilydd?

Taflen 2

6. Beth ydy enw'r dyn?
7. Beth ydy enw'r ddynes?
8. Sut mae'r dyn yn teimlo?
9. Ble mae'r dyn yn gweithio?
10. Ble mae'r ddynes yn gweithio?

Taflen 3

11. Ble yn yr ysbyty mae'r dyn yn gweithio?
12. Ydy e'n mwynhau ei waith?
13. A fyddai'r ddynes yn hoffi gwneud ei waith?
14. Beth sy'n digwydd yn yr ysbyty o bryd i'w gilydd?
15. Pa gynnis mae'r ddynes yn ei gael ar ddiwedd y sgwrs?

Gweithgaredd

Rhestrwch y cynorthwyon a oedd ar gael i'ch galluogi i ymgymryd â'r dasg.

Gweithgareddau gwrando

Isod, cynigir enghreifftiau o weithgareddau gwrando. Gellir defnyddio'r un camau/strategaethau gydag adnoddau eraill.

Adnodd 1: Caneuon Pop (Cymraeg a Saesneg)

Bydd yn rhaid recordio darnau o nifer o ganeuon pop diweddar ar dâp sain cyn dechrau ar y dasg. Ni ddylid osgoi defnyddio caneuon pop Saesneg. Gellir eu defnyddio ynghyd â chaneuon pop Cymraeg.

Cyn gwrando

- holi'r disgyblion am eu hoff grwpiau/ganeuon etc.
- cynorthwyo'r disgyblion i greu holiadur gan holi:
 - *Pa fath o gerddoriaeth rydych chi'n hoffi?*
 - *Pwy ydy'ch hoff ganwr/grwpiau?*
 - *Pa mor aml rydych chi'n prynu tapiau a CDs?*
 - *Ble rydych chi'n prynu eich tapiau a CDs?*
 - *Beth brynoch chi ddiwethaf?*
 - *Ydych chi wedi bod mewn cyngerdd pop?*
 - *Pa grŵp/ganwr weloch chi yn y cyngerdd?*
 - *Pa grŵp/ganwr hoffech chi weld mewn cyngerdd pop?*
- disgyblion yn defnyddio'r holiadur i holi ei gilydd
- ymestyn i waith grŵp - trafod grwpiau pop gan holi pam a mynegi barn gan roi rheswm pan yn briodol. Gellir dilyn y camau isod:
 - cyflwyno'r ymadroddion uchod
 - ymarfer mewn parau drwy lenwi'r holiaduron
 - paratoi cardiau ar gyfer y disgyblion gyda thri o'r cwestiynau uchod ar bob un; rhaid i bob disgybl ofyn y cwestiynau sydd ar ei ch/gerdyn

Wrth/Ar ôl gwranddo

- disgyblion i drafod y clipiau o gerddoriaeth a glywyd gan fynegi barn arnynt yn ôl eu gallu (Gweler Atodiad 1, tud. 20)
- gellir ymestyn y gwaith ymhellach i ddarllen darnau fel *Pigion Rap*, Rhaglen 5, Ymarfer 4 a/neu ysgrifennu erthygl am ddi-ddordeb y disgyblion mewn cerddoriaeth
- Dilyner y canllawiau isod

Darllen *Pigion Rap*, Rhaglen 5, Ymarfer 4

Canllawiau

- darllen y darn gyda'r dosbarth
- disgyblion yn tanlinellu'r geiriau maen nhw'n gyfarwydd â hwy
- ateb y tri chwestiwn isod:
 - Pam mae rhai grwpiau Cymraeg yn canu'n Saesneg?
 - Pryd arwyddodd y ddau grŵp gytundebau gyda chwmnïau recordio rhyngwladol?
 - Pwy ydy prif leisydd Gorky's?

Ysgrifennu erthygl am hoff gerddoriaeth

- darllen yr erthygl yn *Pigion Rap* gan ddilyn y canllawiau uchod
- disgyblion yn chwilio mewn cylchgronau a/neu ar y *We* am eu hoff grŵp
- cynnig fframwaith i'w cynorthwyo, e.e.
 - Fy hoff grŵp ydy ...
 - Maen nhw'n dod o ...
 - Maen nhw'n canu ...
 - Y prif leisydd ydy ...
 - Dw i'n ei hoffi o/e achos mae'n ...
 - Yn fy marn i, mae'r grŵp yn ...
- tynnu eu sylw at ambell ymadrodd yn yr erthygl a ddarllenon nhw a all eu helpu

Adnodd 2: Defnyddio fideo heb lun

Mae modd defnyddio mwy nag un math o raglen gyda'r math yma o dasg, e.e.

- clip o *Pobl y Cwm*
- *Rhagolygon y Tywydd*
- clip o'r *Newyddion*

Enghraifft 1 - Ble maen nhw?

- recordio darn/au addas o *Pobl y Cwm* ar fideo
- chwarae'r darn ar y fideo heb lun - gellir hongian côt dros y sgrîn neu ei dduo gyda'r botwm disgleirdeb
- gwranddo ar gynnwys y sgwrs a'r synau cefndirol, rhaid dyfalu lle mae'r cymeriadau wedi'u lleoli, e.e.
 - yn Nhafarn y Deri
 - mewn cegin
 - mewn garej etc.
- wedi i'r disgyblion ddyfalu, gellir ailddangos y clip gyda'r llun ar y sgrîn i wirio'r atebion

Enghraifft 2 - Beth sydd ar y sgrîn?

- recordio *Rhagolygon y Tywydd* oddi ar S4C
- adolygu cystrawennau a geirfa rhagolygon y tywydd gyda'r disgyblion
- sicrhau bod gan y disgyblion fapiau gwag a symbolau tywydd i'w gosod ar y map
- chwarae'r darn ar y fideo heb lun
- wrth wrando ar y rhagolygon, rhaid i'r disgyblion osod y symbolau tywydd perthnasol cywir ar fap
- wedi cyflawni'r dasg, gellir ailddangos y rhagolygon gyda'r llun ar y sgrîn er mwyn i'r disgyblion wirio'u gwaith eu hunain
- gellir ymestyn y dasg trwy ofyn i'r disgyblion:
 - ysgrifennu eu rhagolygon eu hunain
 - drosleisio rhagolygon y tywydd ar y teledu trwy ddiffodd y sain ar y fideo a chadw'r llun ar y sgrîn

Adnodd 3: Rhaglenni Radio Cymru

Bydd yn rhaid recordio rhaglen gyfan o *Jonsi*, er enghraifft, er mwyn defnyddio darnau o'r rhaglen gyda dosbarth. Bydd yn rhaid gwranddo ar y rhaglen er mwyn dewis clipiau addas i'w defnyddio gyda'r disgyblion, e.e. clip o sgwrs rhwng Jonsi ac aelod o'r cyhoedd sydd wedi ffonio'r rhaglen. Wedi dewis clipiau addas o'r rhaglen, gellir llunio gweithgareddau megis:

- llunio proffil o berson sydd wedi ffonio Jonsi yn ystod y rhaglen; efallai y bydd rhaid i'r athro baratoi amlinelliad o'r ffeithiau allweddol i chwilio amdanynt ar ôl gwranddo ar y clip yn arbennig felly ar gyfer y disgyblion canolig ac is eu gallu
- ymestyn y dasg trwy ofyn i ddisgyblion ddisgrifio'r cymeriad ar y radio. Bydd yn rhaid dyfalu yn ôl goslef y llais a chynnwys y sgwrs, e.e.
 - *Dw i'n meddwl bod y person yn ... Mae'n gwisgo ... etc.*
- gofyn i ddisgyblion greu sgysiau mewn parau; un o bob pâr i chwarae rôl Jonsi a'r llall i chwarae rôl aelod o'r cyhoedd yn ffonio'r rhaglen
- ar ôl gwranddo ar ddarn addas o raglen, gofyn i grwpiau baratoi rhaglen radio - rhwng 5 a 10 munud

Atodiad 1

Rhowch ✓ yn y blwch cywir i ddangos eich barn am y grwpiau ar y tâp.

	Ardderchog	Da	Gweddol	Sbwriel
Grŵp 1				
Grŵp 2				
Grŵp 3				
Grŵp 4				
Grŵp 5				
Grŵp 6				

Atodiad 2

Ysgrifennwch eich barn yn y blwch am gerddoriaeth rydych chi wedi'i chlywed.

Gallwch ddefnyddio'r ymadroddion o dan y grid i'ch helpu.

Grŵp 1	
Grŵp 2	
Grŵp 3	
Grŵp 4	
Grŵp 5	
Grŵp 6	

Help

Dw i'n meddwl bod y grŵp yma'n ...

Dw i'n hoffi/ddim yn hoffi'r grŵp yma achos ...

Dw i'n eitha hoffi ...

... ond mae'n well gyda fi/gen i ... achos ...

Atodiad 3

Ysgrifennwch 1 neu 2 frawddeg am y grwpiau ar y tâp gan roi eich barn am bob grŵp.

Grŵp 1		
Grŵp 2		
Grŵp 3		
Grŵp 4		
Grŵp 5		
Grŵp 6		

Gwyllo

Wrth ddefnyddio'r adnoddau isod, pwysleisir mai enghreifftiau ydynt a bod modd defnyddio'r un dulliau gydag adnoddau eraill a nodir yn y we ar dudalen 12.

Camau enghreifftiol

Adnodd: *Pigion RAP (ACEN)*

Rhaglen 1: Campau Dŵr (Jetsgio)

Cyn gwyllo

- holi'r disgyblion am wahanol fathau o gampau dŵr
- cynorthwyo'r disgyblion i greu holiadur gan holi:
 - Pa gampau dŵr ydych chi wedi'u gwneud?*
 - Ble?*
 - Pryd?*
 - Gyda phwy?*
 - Pa gampau dŵr fasech chi'n hoffi wneud?*
 - Pam?*
- disgyblion i ddefnyddio'r holiadur i holi ei gilydd
- creu graff i ddangos canlyniadau rhai agweddau o'r holiadur (TGCh)
- trafod canlyniadau'r holiadur/graff ar lafar (gwaith grŵp)

Wrth wyllo

- gwyllo'r eitem ar ei hyd
- cwblhau'r dasg wrth wyllo (gweler Atodiad 1)

Ar ôl gwyllo

- gwaith grŵp – disgyblion i holi a mynegi barn am gynnwys y fideo
 - y dillad
 - jetsgio
 - y jetsgi
 - cyflymder y jetsgi
 - y cefndir/yr olygfa

Adnodd 2: *Pigion Rap*

Rhaglen 8 Bwyd

Cyn gwyllo

- holi'r disgyblion:
 - *Ydych chi wedi blasu bwyd o Japan?*
 - *Ydy'r syniad o fwyta bwyd o Japan yn apelio atoch?*
 - *Pa fwydydd mae pobl o Japan yn fwyta?*
- gwaith cartref:
 - disgyblion i ddarganfod pa fath o fwyd mae pobl Japan yn ei fwyta
 - gellir annog y disgyblion i wneud defnydd o'r *We a/neu lyfrgell yr ysgol* neu'r llyfrgell leol
- cyflwyno geirfa anghyfarwydd, e.e. amrwd, gwymon

Wrth wyllo

- gwyllo'r eitem ar ei hyd
- cwblhau'r dasg wrth wyllo (Atodiad 2)

Ar ôl gwyllo

- disgyblion i anfon E-bost/llythyr at:
Hybu Bwyd Cymru Cyf... neu ffonio'r cwmni i gael gwybodaeth am fwydydd Cymru/Cymreig
- gofyn i'r disgyblion ddod â bwydydd i'r dosbarth megis:

bara brith cig moch cocos bara lawr cawl cennin	llaeth enwyn selsig Morgannwg bara ceirch caws Caerffili wyau Sir Fôn
---	---

- disgyblion i gael cyfle i flasw'r bwydydd a mynegi barn amdanyn nhw
- dylid tynnu sylw'r disgyblion at y mynegi barn yn yr eitem fideo

Adnodd 3 Operâu Sebon

Mae modd defnyddio adnoddau megis:

Operau Sebon Cymraeg	Operau Sebon Saesneg
<i>Bryn Golau(IAW!)</i> <i>Pobl y Cwm</i> <i>Pam Fi Duw</i> <i>Pengelli</i>	<i>Coronation Street</i> <i>Emmerdale</i> <i>Eastenders</i> <i>Brookside</i> <i>Neighbours</i> <i>Home and Away</i>

Sut i ddefnyddio'r Operâu Sebon

Wrth ddefnyddio operâu sebon gellir:

- gwyllo'r gyfres er mwynhad yn unig
- gwyllo'r rhaglenni, nid fel cyfres opera sebon ond fel unedau unigol
 - i sbarduno trafodaeth bellach ar bynciau megis
 - bwlio
 - cyffuriau
 - gwaith cartref
 - dwyn
 - cariadon
 - tensiwn yn y teulu
 - i ragfynegi – beth sy'n digwydd nesaf
 - i drafod cymeriadau
 - i ddramateiddio sefyllfa yn y dosbarth
 - fel sbardun i chwarae rôl
 - fel sbardun i waith ysgrifennu
 - i atgyfnerthu geirfa neu batrwm iaith

Enghraifft 1 - Disgrifio cymeriad

Arweiniad i'r dasg:

- gofyn i'r disgyblion wyllo rhaglen o'u hoff opera sebon fel gwaith cartref
- adolygu a thrafod y defnydd o ansoddeiriau sy'n disgrifio cymeriad (gweler Atodiad 3)
- adolygu a thrafod y defnydd o batrymau iaith sy'n mynegi barn (gweler Atodiad 3)
- yn y wers ddilynol y disgyblion i weithio mewn paru/grwpiau i drafod y cymeriadau a wylwyd yn y rhaglen fel gwaith cartref
- fel tasg ymestynnol, gellir ystyried hybu'r disgyblion i gymharu cymeriadau yn y rhaglenni a wylwyd, e.e.

Mae ... fel ... ar Eastenders.

Mae ... yn debyg i ... ar ...

Mae ... yn fwy mentrus na ...

Mae ... yn fwy ... na ...

Mae ... mor ... â ...

Dydy ... ddim mor ... â ...

- gellir ymestyn ymhellach trwy drafod barn rhai o'r cymeriadau am ei gilydd, e.e.

Beth mae ... yn feddwl o ...?

Ydy ... yn hoffi ...?

Pam dydy ... ddim yn hoffi ...?

Beth mae ... yn ddweud am ...?

Enghraifft 2 - Chwarae rôl

Arweiniad i'r dasg:

- gwyllo a recordio rhaglen opera sebon
- wrth wyllo, dewis darn byr addas o'r rhaglen i'w ddefnyddio i chwarae rôl yn y Gymraeg - dylid annog y disgyblion i recordio'r rhaglen
- y disgyblion i ail-lunio'r clip a ddewiswyd gan ddefnyddio'r ystod iaith sydd ganddynt (h.y. peidio â chyfieithu) ar gyfer chwarae rôl yn y Gymraeg yn y dosbarth
- wedi ail-lunio'r sgript, gellir ei defnyddio i droslaisio tra bod y fideo yn rhedeg yn ddi-sain

Enghraifft 3 - Atgyfnerthu geirfa neu batrwm iaith a sbarduno trafodaeth bellach

Adnodd: IAW!, Rh 21.2 Trafod llysieuwyr

Cyn gwyllo

- Trafod fel dosbarth: *Beth mae llysieuwyr yn ei fwyta?*
Beth dydyn nhw ddim yn ei fwyta?

Wrth wyllo

- gwyllo'r rhaglen ar ei hyd
- dosbarthu'r taflenni (Gweler Atodiad 4)
- esbonio'r dasg
- ail-wyllo'r rhaglen a chwblhau'r dasg

Ar ôl gwyllo

- defnyddio Atodiad 4 i dynnu sylw at y defnydd o batrymau iaith sy'n mynegi barn
- pledu syniadau fel dosbarth am resymau o blaid ac yn erbyn bod yn llysieuwr
- gellir defnyddio sbardun darllen ar yr un thema i sbarduno trafodaeth pâr/grŵp
- ysgrifennu erthygl at gylchgrawn/papur newydd gan ddefnyddio cyfrifiadur

Adnodd 4 Fideos di-iaith

Gellir defnyddio adnodd megis Mr Bean, Pingu a fideos di-iaith eraill.

Enw'r fideo: *The Exiting Escapades of Mr Bean* Adran: *The Curse of Mr Bean*

Clip: *On The Park Bench*

Cyn gwyllo

- adolygu gorchmynion a darllen rysait/cyfarwyddiadau coginio yn y Gymraeg

Wrth wyllo

- gwyllo'r clip *On the Park Bench* ar ei hyd
- gwyllo'r rhan lle mae Mr Bean yn paratoi brechdan
- cwblhau'r dasg trwy ddefnyddio'r canllawiau yn Atodiad 5
- rhoi cyfle i'r disgyblion drosleisio'r broses o wneud brechdan yn y Gymraeg tra fo'r fideo'n rhedeg

Ar ôl gwyllo

- Creu llyfryn ryseitiai yn y Gymraeg trwy ofyn i athrawon, ffrindiau, rieni gyfrannu eu hoff ryseitiai

Clip: *Horror Movie*

- gwyllo'r clip ar ei hyd (er mwynhad)
- ail-wyllo gan ddefnyddio'r botwm oedi i annog y disgyblion i feddwl am gwestiynau addas i holi ei gilydd am eu harferion personol nhw wrth fynd i'r sinema, e.e. annog y disgyblion i feddwl am gwestiynau fel:
 - Fyddwch chi'n hoffi mynd i'r sinema?*
 - Gyda pwy?*
 - Fyddwch chi'n prynu "popcorn" a "coke"?*
 - Pa fath o ffilmiau fyddwch chi'n hoffi gwyllo?*
 - Ydych chi'n hoffi ffilmiau arswyd?*
 - Sut fyddwch chi'n teimlo wrth wyllo ffilm arswyd?*
- llunio holiadur o'r cwestiynau
- defnyddio'r holiadur ar lafar a thrafod y canlyniadau fel dosbarth, e.e.
 - Faint o bobl sy'n hoffi/ddim yn hoffi mynd i'r sinema?*
 - Pa fath o ffilm ydy'r fwyaf poblogaidd?*
 - Faint sy'n hoffi ffilm arswyd?*
- gall hyn arwain at dasg gwyllo ffilm

Adnodd 5 Ffilmiau Sinema a/neu Ffilmiau Fideo

Gellir addasu unrhyw un o'r syniadau a drafodwyd eisoes fel gweithgareddau ar gyfer disgyblion cyn, wrth ac ar ôl iddynt wyllo ffilm/iau.

Trafod ffilm

- gwyllo ffilm – gartref, yn y sinema, gyda ffrind
- llenwi'r grid Atodiad 6a (c) neu 6b (y) – dylid trafod y gridiau gyda'r dosbarth ymlaen llaw er mwyn bwydo'r eirfa a'r patrymau angenrheidiol
e.e. *Fy hoff ffilm/gymeriad/olygfa ydy ...*
Ffilm arswyd/gomedi/ramantus ydy hi
Mwynheuais i'r ffilm achos ...
- trafodaeth dosbarth yn y lle cyntaf gyda'r athro/athrawes yn enghreifftio'r modd y gellir defnyddio taflen 6a / 6b i adrodd yn ôl i'r dosbarth am ei hoff ffilm,e.e.
Enw fy hoff ffilm ydy ... Ffilm gomedi ydy hi. Prif actor/actores y ffilm ydy ... ac mae ... a ... yn actio yn y ffilm hefyd. Yn y ffilm mae ... yn digwydd.
Mae'r effeithiau arbennig yn wych. Dw i'n meddwl dylai pawb weld y ffilm achos mae'n ardderchog ac yn ddoniol iawn.
- y disgyblion i weithio mewn grŵp/pâr a thrafod ffilm o'u dewis yn yr un modd
- defnyddio cyfrifiadur i greu poster yn cynnwys y wybodaeth o'r daflen
- creu tudalen ar y We yn trafod gwahanol agweddau'r ffilm

Atodiad 1

Rhowch ✓ yn y bocs i ddangos yr ateb cywir.

1. Pa wledydd mae Catrin yn sôn amdanyn nhw?

Ffrainc	Sbaen	Groeg
Cymru	Barbados	Sweden

2. Beth ydy tymheredd y dŵr ym Mhorth Talbot?

60	70
80	90

3. Beth ydy enw athro jetsgïo Catrin?

Richard Jones	Richard Davies
Robert Davies	Robert Smith

4. Sawl gwaith mae Catrin yn syrthio i'r dŵr?

1	3
2	4

5. Pryd dechreuodd Carl jetsgïo?

1962	1972
1982	1992

6. I ddechrau jetsgïo rhaid bod yn:

10 oed	12 oed
14 oed	16 oed

Atodiad 2

Rhowch ✓ yn y bocs i ddangos yr ateb cywir.

1. Dau fath o fwyd mewn tŷ bwyta Japaneaidd ydy:

llysiau amrwd	pysgod amrwd
crempog gwymon	cawl gwymon

2. Mae Ree Davies wedi bod yn:

Hong Kong	Tokyo
Singapore	Osaka

3. Beth ydy enw'r person sy'n gweithio yn y tŷ bwyta?

Tikako	Chitato
Thikato	Chikako

4. Enwch 3 prif fwydydd Japan:

.....
.....
.....

5. Beth oedd yn arbennig am y "sushi bar"?

Roedden nhw'n eistedd ar *conveyor belt*.

Roedd pris y bwyd yn uchel iawn.

Pris y bwyd oedd pris y plat.

Roedden nhw'n eistedd ar blatiau lliw.

6. Mae 3 bwyd gwahanol ar y sgrin:

Enw	Math o fwyd
	pysgod a llysiau
teriaki	
	tiwna ac eog

7. “Crisp” a “crunchy” – pa fwyd oedden nhw’n disgrifio?

.....

8. Sut mae Catrin yn bwyta’r tiwna?

gyda fforc

gyda llwy

gyda chopsticks

gyda’i bysedd

Atodiad 4

Wrth wyllo, rhowch X yn y bocs os rydych chi'n clywed y frawddeg neu/a rhowch rif yn y bocs i ddangos ym mha drefn y mae'r brawddegau'n ymddangos.

Y frawddeg	X	Trefn
Mae'n gas gen i weld anifeiliaid yn dioddef.		
Dyna pam dw i ddim yn bwyta cig.		
Fy hoff wersi yn yr ysgol ydy cerddoriaeth a daearyddiaeth.		
Mae'r ffermwyr yma'n greulon.		
Does dim rhaid i ni fod yn Vegan.		
Mae rhai pobl yn llysieuwyr achos dydyn nhw ddim yn hoffi cig na physgod.		
Does dim rhaid i ni fwyta cig.		
Ac mae'r lladd, y ffordd o ladd, yn gallu bod yn greulon hefyd.		
Dydy'r ffermwyr ddim yn hoffi cig na physgod achos maen nhw'n greulon.		
Achos dydy pob anifail ddim yn cael ei stynio'n iawn.		
Os ydyn ni'n bwyta llai o gig bydd mwy o'r grawn ar gael i bobl y trydydd byd.		

Atodiad 5

Brechdan Mr Bean

Rhowch y geiriau hyn mewn trefn i esbonio'r broses o wneud brechdan yn y clip:

Menyn	Sychu
Hosan	Gwneud
Bara	Torri
Jar	Lladd
Cerdyn credyd	Rhoi
Siswrn	Golchi
Pysgod	Tynnu
Letys	
Brechdan	

1. Torri'r bara gyda
2.
3.
4.
5.
6.
7.
8.

Nawr ysgrifennwch y cyfarwyddiadau gan ddefnyddio'r gorchmynion yn eu ffurf lluosog (-wch).

1. Torwch y bara gyda
2.
3.
4.
5.
6.
7.
8.

Atodiad 6a

Cwblhewch y ffurflen isod ar ôl gwyllo ffilm o'ch dewis.

Enw'r ffilm	Math o ffilm	Prif actor/es actorion	Actorion eraill	Digwyddiadau yn y ffilm	Effeithiau arbennig	Barn am y ffilm

Atodiad 6b

Cwblhewch y ffurflen isod ar ôl gwyllo ffilm o'ch dewis.

Enw'r ffilm	Math o ffilm	Hoff olygfa	Prif gymeriad yr olygfa	Digwyddiadau'r olygfa	Beth sy'n cael ei ddweud yn yr olygfa	Barn am yr olygfa

Rhan 2

Gwaith Pâr/Grŵp

Gofynion Cwricwlwm 2000

Mae pwyslais yn *Cwricwlwm 2000* ar waith pâr/grŵp.

1. Ystod

Dylid addysgu'r disgyblion i:

- 1.2 drafod ystod o bynciau amrywiol ...
- 1.4 sgwrsio'n ymestynnol gyda chymheiriaid, athrawon ac oedolion cyfarwydd ac anghyfarwydd eraill ...
- 1.5 gyfrannu ac ymateb yn effeithiol i ystod amrywiol o symbyliadau:
... mewn trafodaethau grŵp a dosbarth

2. Sgiliau

- 2.4 gwranddo ac ymateb yn gwrtais i'r hyn a glywant gan:

... symud y drafodaeth yn ei blaen
... llywio ac arwain y trafod ...
- 2.5 sgwrsio'n rhugl ac yn hyderus gan:

holi ac ateb yn bwrpasol
addasu syniadau ar sail cyfraniadau gan eraill
grynhoi a dod i gasgliad
- 2.7 mynegi barn yn effeithiol ...
- 2.9 cyflwyno gwybodaeth a thrafod amrywiaeth o bynciau, weithiau ar sail ymchwil, gan gynhyrchu cyfraniadau estynedig lle bo hynny'n bridol

Bwriad yr astudiaeth hon yw enghreifftio'r modd y gellir darparu gweithgareddau diddorol i hyrwyddo'r gofynion uchod. Yn gyntaf, ystyrir rhesymoleg gwaith pâr/grŵp.

Pam gwaith pâr/grŵp?

Mae gwaith pâr/grŵp yn cynnig cyfleoedd i:

- gyflwyno gwaith gwahaniaethol
- amrywio gweithgareddau'r ystafell ddosbarth
- amrywio dulliau dysgu
- ddisgyblion symud i bwrpas o gwmpas yr ystafell i gydweithio gan ddod ag amrywiaeth pellach i weithgareddau'r dosbarth
- greu sefyllfa realistig mewn dosbarth
- dynnu'r colyn o berfformio fel unigolyn o flaen dosbarth
- gyfnodau byrion o ganolbwytio rhwng dau ddisgybl heb ymyrraeth athro.

Nodyn: mae arweiniad ynghylch cyfansoddiad grwpiau yn y dosbarth ail iaith yn *Meithrin Llafaredd yn y Dosbarth: Y Continuum Cyfathrebol* (CBAC, 1996).

Mae darparu gwaith pâr a gwaith grŵp yn cynnig cyfle i ddisgyblion ymarfer iaith yn ddwys ac i ymgymryd â thasgau cyfathrebol. Mae Byrne (1986, tud. 2) a sylwebyddion eraill yn adnabod tri cham yn y broses o gael disgyblion i siarad.

Cam 1: cyflwyno iaith trwy ddrilio etc.

Cam 2: ymarfer iaith - yn arbennig mewn parau a grwpiau

Cam 3: gweithgareddau cyfathrebol - rhaid wrth waith pâr a grŵp i gyrraedd y nod

Rhaid cyflwyno ac ymarfer yr eitemau iaith angenrheidiol yn drylwyr gyda'r disgyblion. Yn achos y rhai sydd angen cynhaliaeth, dylid darparu rhestr o eitemau iaith ar y bwrdd gwyn/uwchdaflunydd/ar gardiau. Mae hyn o gymorth i'r disgybl lwyddo ac felly'n hwb i gymhelliant.

Mynd i'r afael â gwaith pâr/grŵp

I lwyddo gyda gwaith pâr/grŵp, dylid ystyried dilyn camau fel y rhai a gynigir isod:

- sicrhau bod pawb yn gwybod beth i'w wneud, nod y dasg a'r disgwyliadau o safbwynt hyd y gweithgaredd, eitemau iaith etc.
- enghreifftio'r dasg gydag ambell bâr/grŵp/unigolyn
- sicrhau bod pob unigolyn â rôl bendant o safbwynt holi/ateb cwestiynau, mynegi barn etc.
- cynnig cynhaliaeth i rai sydd angen cymorth a hefyd i rai sydd angen ymestyn eu cyfraniadau
- amseru'r gweithgaredd yn ofalus gan sicrhau nad yw'r disgyblion yn segur a bod yn barod gyda cham nesaf y wers
- cynnig adborth gan ganmol ac/neu ailymweld ag ambell eitem iaith yn ôl y gofyn

Nodweddion gwaith pâr/grŵp effeithiol

- brwdfrydedd yr athro
- gweithgareddau a thasgau ar y lefelau priodol
- paratoi disgyblion yn effeithiol, e.e. adolygu/cyflwyno'r cystrawennau a'r eirfa ddisgwyliedig
- cyfarwyddiadau clir i'r disgybl, h.y. y disgybl yn deall y dasg a'i rôl yn y dasg ynghyd â'r disgwyliadau ieithyddol
- hinsawdd ymarferol ar gyfer gwaith pâr/grŵp, e.e. o safbwynt lleoliad byrddau
- disgyblion yn gallu symud o gwmpas y dosbarth yn ddiffwdan ac yn dawel
- disgyblion yn defnyddio'r iaith darged
- lefel sŵn dderbyniol
- ffordd o dynnu sylw'r dosbarth cyfan ar unrhyw adeg o'r wers wedi'i sefydlu, e.e. defnyddio cerddoriaeth, curo'r drws etc.

Gweithgareddau gwaith pâr/grŵp

Enghreifftir gwaith pâr a gwaith grŵp ar wahân.

Gwaith pâr

Nod: chwarae rôl - cyfweiliad am swydd ran-amser

Camau

1. Hysbysu'r dosbarth o nod y gweithgaredd.
2. Trafod gwaith rhan amser gyda'r dosbarth cyfan gan holi cwestiynau megis:
 - *Ble rydych chi'n gweithio?*
 - *Faint o arian rydych chi'n ennill?*
 - *Faint i oriau rydych chi'n weithio ar ddydd Sadwrn?*
 - *Beth rydych chi'n wisgo? etc.*
3. Cyflwyno ymadroddion.
4. Drilio iaith, e.e.
 - *Ble rydych chi wedi gweithio?*
 - *Oes profiad gyda/gennych chi?*
 - *Fyddwch chi'n gallu ...?*
 - *Bydda i'n gallu ...*
5. Ymarfer y patrymau mewn parau gyda'r athro'n cynnal rhai disgyblion trwy gadarnhau ynganiad cywir etc.
6. Athro'n chwarae rôl gydag ambell ddisgybl er mwyn modelu'r broses.
7. Chwarae rôl - ceisio am swydd.

Gweithgaredd

Lluniwch gamau ar gyfer y gweithgareddau gwaith pâr isod. Ymdrechir i gynnig gweithgareddau difyr sy'n berthnasol i ddisgyblion 14-16 oed.

- chwarae rôl - sgwrs rhwng rhiant a pherson ifanc sy'n cyrraedd adre'n hwyr ac wedi meddwi
- chwarae rôl - sgwrs rhwng plismon a pherson ifanc mae'n ei atal ar y stryd yn oriau mân y bore i'w holi ynglŷn â lle mae wedi bod/yn mynd etc.
- holi gwybodaeth - disgyblion yn holi'i gilydd am hynt a helynt y penwythnos. Gellir defnyddio'r cwestiynau canlynol yn ganllaw: *Ble? Beth? Gyda phwy? Pam? Sut? Yna*, gellir ymestyn y dasg trwy ofyn iddynt adrodd i ddisgybl arall, e.e. *Aeth ... i ... Aeth hi gyda ... Yn gyntaf, aethon nhw i ...*
- dweud wrth y disgyblion eu bod yn mynd ar wyliau i Ibiza a'u bod yn cael mynd â 10 eitem yn unig gyda nhw. Rhaid trafod pa eitemau ac yna cyrraedd consensws. Gellir ymestyn y gweithgaredd trwy ymuno â phâr arall, cymharu penderfyniadau a cheisio cyrraedd consensws gyda nhw hefyd.

Gwaith grŵp

Nod: mynegi barn am raglen deledu

Camau

1. Trafod gyda'r disgyblion cyn penderfynu ar ran o raglen i'w gwyllo.
2. Holi'r disgyblion:
 - *Pwy ydy'ch hoff gymeriad?*
 - *Pam?*
 - *Pwy ydy'ch cas gymeriad?*
 - *Pam?*
 - *Beth ydy'ch barn chi am...?*

Dylid annog y disgyblion i gytuno/anghytuno'n gwrtais â sylwadau disgyblion eraill.

3. Arddangos y cwestiynau ar y wal neu ar gardiau a rhoi cyfle i'r disgyblion eu hymarfer yn ddwys mewn parau.
4. Disgyblion yn trafod y rhaglen mewn grwpiau - rhaid sicrhau bod pob disgybl yn holi/ateb/ymyrryd yn gwrtais/cytuno/anghytuno etc.
5. Enwebu disgybl o un neu ddau grŵp i adrodd yn ôl gan ddefnyddio ymadroddion megis:
 - Rydan ni'n credu ...*
 - Mae rhai ohonon ni'n meddwl ...*
 - Dylai ... etc.*

G weithgaredd

Lluniwch gamau ar gyfer y gweithgareddau gwaith grŵp isod:

- yn dilyn gwaith cartref sy'n gofyn i ddisgyblion ddarllen erthygl am fwyta'n iach, trafod y pwnc gan ddefnyddio'r cwestiynau canlynol yn ganllaw
 - *Wnes ti fwyta ffrwythau neu lysiau dros y penwythnos?*
 - *Wyt ti'n bwyta byrgys a sglodion a bwyd junk?*
 - *Yn aml?*
 - *Ddylen ni fwyta'n iach?*
 - *Pam?*
 - *Beth ydy dy farn di am ...?*
- mae'r cyngor eisiau rhoi caniatâd cynllunio i adeiladu tafarn drws nesaf i'r ysgol - rhaid i rai disgyblion gytuno ac eraill i anghytuno gydag un disgybl yn adrodd yn ôl ar y diwedd
- trafod cam-drin alcohol ymhlith yr ifanc
- trafod y pwysau sydd ar bobl ifanc i wisgo dillad ffasiynol
- a ddylid gostwng oed gyrru car i 16? ac a ddylid gwahardd pobl dros 70 rhag gyrru?
- disgyblion i ddewis pwnc/agwedd, darllen amdano, ysgrifennu nodiadau a chyflwyno'r wybodaeth ar lafar i weddill aelodau'r grŵp; y gweddill, yn eu tro yn holi am fwy o wybodaeth er mwyn cytuno/anghytuno
- cyflwyniad llafar - disgybl yn siarad am wyliau, real neu ddychmygol gan ddefnyddio lluniau, mapiau etc.; aelodau eraill y grŵp yn ei holi am fwy o wybodaeth er mwyn cytuno/anghytuno.

ASTUDIAETH 3

Darllen

Mae'r astudiaeth hon yn enghreifftio sut i ddatblygu rhai o'r sgiliau a restrir yn *Cwricwlwm 2000*. Ymdrechir i ddefnyddio enghreifftiau sy'n hyrwyddo cymhelliant disgyblion CA4. Hefyd, cynigir enghreifftiau o gêmâu iaith sy'n hyrwyddo datblygu sgiliau darllen.

Sgiliau

4. ... defnyddio cyd-destun i ganfod ystyr
 5. cip-ddarllen er mwyn cael brasargraff
llithr-ddarllen i chwilio'n gyflym am fanylion penodol
 6. ... rhagfynegi
 7. darllen ar goedd ...
 8. dod o hyd i wybodaeth benodol o wahanol rannau'r testun ... gan ddefnyddio TGCh ...
11. mynegi barn ...

Gweithgareddau darllen

Llenwi ffurflen

Memo'n cofnodi gwybodaeth o sgwrs ffôn

Llenwi ffurflen cronni gwybodaeth mewn swyddfa galwadau brys

Beth sy wedi digwydd?	
Ble?	
I bwy?	
Pwy sy'n ffonio?	
Rhif ffôn	
Sylwadau eraill	

Meimio

Nodyn: ar gyfer grŵp o ddisgyblion is eu gallu yn unig

- darllen gwybodaeth am weithredoedd swydd arbennig a'u darllen nhw i weddill y dosbarth tra'n meimio, e.e.

Rydw i'n gwisgo helmed.

Rydw i'n gyrru peiriant.

Rydw i'n cyrraedd y tân.

Rydw i'n dringo'r ysgol.

Rydw i'n chwistrellu dŵr.

Rydw i'n achub babi bach o'r tân.

- adrodd yn ôl i'r athro/ddisgybl arall

Gwaith pâr – Dweud celwydd

- darllen llythyr cyflwyniad personol wedi'i ysgrifennu yn y person cyntaf gan ddisgybl arall yn dweud celwydd amdano'i hun gan nodi:

enw

oedran

brodyr/chwiorydd

hobiau

hoffterau

- adrodd y disgrifiad yn y trydydd person i rywun arall
- llenwi ffurflen wedi'i llunio i gofnodi'r wybodaeth angenrheidiol

Darllen stori ac adrodd yn ôl ar lafar neu'n ysgrifenedig am:

y cymeriadau

prif ddigwyddiadau

lle mae'r stori'n digwydd

beth ydy neges y stori os oes un

Gwybodaeth am gar o erthygl yn y Cymro

Gosod yr wybodaeth mewn grid:

Maint peiriant	
Pris	
Pwyntiau cadarnhaol	
Pwyntiau negyddol	

Ymateb trwy lythyr

- darllen cerdyn gwahoddiad i barti
- anfon llythyr yn ôl i ddweud:
 - pwy sy'n dod
 - sut rydych chi'n dod
 - pryd rydych chi'n dod
 - gofyn am gyfarwyddiadau

Darllen sgript am gyffuriau yn IAW!, Rhaglen 25.7 Gol 3 (Geraint a Clare)

- ysgrifennu llythyr at golofn broblemau cylchgrawn pobl ifanc oddi wrth Geraint yn gofyn am help i wybod beth i wneud am Clare

Cyfleu synnwyr

- ad-drefnu cyfres o luniau o stori
- darllen stori gyda lluniau yn unigol, e.e. *Cyfres Sebon*
- dewis lluniau o ddigwyddiadau allweddol stori ac yna:
 - ad-drefnu'r digwyddiadau ac egluro beth sy'n digwydd
 - cynnig geiriau y byddai'r cymeriadau'n eu dweud

Darllen stori gyfan

Mared yn Moscow (Bwrw Ati)

- ysgrifennu rhestr o brif ddigwyddiadau'r stori

Llunio graff

- casglu gwybodaeth am grŵp o bobl, e.e. i'w fwydo i ddatbas a gwneud graff yn ôl amryw feysydd, e.e.

Bill	Mae e'n chwe troedfedd ac un fodfedd. Mae gwallt du gyda fe. Mae llygaid glas gyda fe.
Jack	Mae e'n bum troedfedd a chwe modfedd. Mae gwallt melyn gyda fe. Mae llygaid gwyrdd gyda fe.

meysydd = taldra, lliw gwallt, lliw llygaid

Creu databas yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd ar nifer o ffurflenni

- dylid paratoi ffurflen yn holi am hoff grwpiau pop, er enghraifft, a chasglu gwybodaeth am y dosbarth trwy waith llafar gyda'r disgyblion yn holi'i gilydd

Ticiwch y blwch

Enw'r grŵp	Casáu	Hoffi'n weddol	Yn hoffi llawer iawn	Hoff grŵp
Manics				
Stereophonics				
Super Fury Animals				
Catatonia				

- sicrhau bod y disgyblion yn darllen y databas trwy holi cwestiynau am ei gynnwys, e.e.
 - *Disgrifiwch Bill*
 - *Pa liw ydy gwallt Jac?*
 - *Ydy'r Super Fury Animals yn boblogaidd?*

Enghreifftiau pellach o ddefnyddio TGCh i hyrwyddo darllen:

chwilio ar y We am wybodaeth ar bwnc arbennig, e.e. yr amgylchedd, ysgrifennu nodiadau arno a'i drafod

darllen eitemau newyddion a chreu bwletin eu hunain

trafod a mynegi barn ar eitem o newyddion o'r We

Tasgau gwahanol yn deillio o un llyfr – Problem, Cyfres Sebon

Darllenwch y llyfr ac ystyriwch y tasgau a gynigir isod.

- ateb cwestiynau ar lafar neu'n ysgrifenedig, e.e.
Pryd mae C.J. yn cyrraedd yr ysgol?
Pa waith cartref sy gyda CJ?
- holi pellach
Sut mae Pip yn teimlo yn y bore?
Beth mae Sam yn feddwl ydy problem Pip?
- ymarfer aml ddewis, e.e.
Mae CJ yn cael problem gyda gwaith cartref:
mathemateg —
Cymraeg —
hanes —
gwyddoniaeth —
- creu sgript o'r stori a pherfformio'r llyfr fel dramodig gan:
newid enwau'r cymeriadau i enwau disgyblion y dosbarth
ddisodli rhannau o'r testun neu ysgrifennu'n fwy creadigol
- ysgrifennu tudalen o ddyddiadur Sam yn cyfleu ei syniadau
- dewis brawddegau mae cymeriadau yn eu dweud a chael y disgyblion i'w cysylltu nhw â'r cymeriad cywir
- chwilio am ansoddeiriau/enwau/berfau
- llunio clawr newydd i'r llyfr gan ddefnyddio rhaglen bwrddgyhoeddi
- ysgrifennu broliant ar gyfer y clawr gan ddefnyddio rhaglen bwrddgyhoeddi
- llunio diwedd gwahanol i'r stori
- disgrifio'r prif gymeriadau gan nodi:
sut maen nhw'n edrych
sut bersonoliaeth sy ganddyn nhw
- cynnal trafodaeth am gyffuriau

Gweithgaredd

Edrychwch ar y sgiliau darllen ar dudalen 44. Pa sgiliau sy'n angenrheidiol i alluogi'r darllenydd ymgymryd â'r tasgau uchod?

Darllen deunyddiau ffeithiol

Mae darllen ffeithiol yn apelio at amryw o ddisgyblion, yn arbennig bechgyn. Mae'r adran hon yn cynnig rhai syniadau.

Disgyblion yn darllen am Ryan Giggs

Camau

1. Athro'n rhoi siart (gweler isod) ar y bwrdd gwyn/uwchdaflunydd a holi'r disgyblion am wybodaeth amdano.

Beth rydych chi'n wybod	Beth ydych chi ddim yn siwr ohonyn nhw	Beth hoffech chi wybod
<i>Mae'n chwarae i Man U. Mae'n byw ym Manceinion.</i>	<i>O Gaerdydd mae o'n dod?</i>	<i>Ydy o/e wedi priodi?</i>

2. Disgyblion yn darllen darn am Ryan Giggs i gadarnhau eu gwybodaeth.
3. Cânt roi mwy o fanylion yn y grid wrth ddarllen.

Hysbysebion

Camau

1. Athro'n darparu taflen yn llawn hysbysebion o bapurau bro, *Golwg* etc.
2. Rhoi deg cwestiwn i'r disgyblion eu hateb mor gyflym â phosibl.

Lluniau

Camau

1. Athro'n darparu llun o rywbeth apelgar, e.e. car rasio, cwch cyflym, roced, y Titanic etc. ynghyd â pharagraff byr yn ei ddisgrifio.
2. Defnyddio'r llun a'r testun i holi cwestiynau i'r disgyblion.
3. Gellir defnyddio'r un adnodd i gynnal ymarfer bwllch gwybodaeth lle mae un disgybl â'r llun a'r llall â'r testun.

Holi cwestiwn/cwestiynau

Mae sylwebyddion megis Doff (1998) a Harmer (1991) yn rhoi pwyslais ar y dechneg o ysgrifennu dau neu dri chwestiwn ar y bwrdd gwyn cyn i'r disgyblion fynd i'r afael â darn darllen ffeithiol. Mae hyn yn cynnig pwrpas i'r darllen ac yn galluogi'r disgybl i fewnoli mwy o wybodaeth.

Enghraifft

Rhys Ifans o'r gyfres Cymry Enwog

Camau

1. Dangos clip byr o'r ffilm *Notting Hill*
2. Gosod y cwestiynau isod ar y bwrdd gwyn:

*Beth oedd enw llawn Rhys Ifans pan yn blentyn?
I ba ysgol uwchradd aeth Rhys?
Pwy sy'n ei wahodd am bryd bwyd weithiau?*

3. Disgyblion yn darllen y llyfr ac ateb y cwestiynau.

Gêmau iaith i hyrwyddo sgiliau darllen

Gêm 1 Gwneud camgymeriadau

Nod: meithrin medrau darllen ar goedd a gwrando

Adnoddau: unrhyw ddarn darllen ac uwchdaflunydd

Camau

1. Cyflwyno/Adolygu *Esgusodwch fi, rydych chi wedi dweud ... yn lle ...*
2. Llungopïo darn darllen ar dryloyw.
3. Darllen y darn yn uchel i'r disgyblion gan wneud camgymeriadau bwriadol a hwythau i roi eu dwylo i fyny i gynnig cywiriad.

Nodyn: gellir darparu copi ar gyfer pob disgybl ac yna chwarae'r gêm mewn paru/grwpiau.

Gêm 2 Cymharu llun a gair

Nod: darllen adroddiad ac yna ysgrifennu fersiwn well a'i darllen yn uchel

Adnoddau: llun o ddigwyddiad;
paragraff yn disgrifio'r digwyddiad ond yn cynnwys sawl camgymeriad ffeithiol

Camau

1. Dangos llun o ddigwyddiad ynghyd â disgrifiad gwallus rydych chi wedi'i baratoi ohono.
2. Disgyblion yn ystyried y llun a darllen eich disgrifiad chi'n ofalus.
3. Athro'n darllen y disgrifiad gwallus ac yn annog y disgyblion i gynnig cywiriadau ar lafar. Gellir annog defnyddio iaith megis, *Dw i'n anghytuno hefo beth rydych chi wedi ysgrifennu am ... etc.*
4. Disgyblion yn ysgrifennu fersiwn gywir ac yna'n darllen gwaith ei gilydd.

Gêm 3 **Darllen - llenwi bylchau**
(Ron Addelman, 1999)

Nod: darllen yn uchel

Adnoddau: unrhyw ddarn darllen

Camau

1. Gosod y darn darllen ar yr uwchdaflunydd a rhoi munud neu ddau i'r disgyblion ei ddarllen yn dawel.
2. Gosod pren mesur ar draws y sgrîn a gofyn i ddisgybl ddechrau darllen: y gamp ydy trio cofio'r geiriau coll.

Gêm 4 **Sut maen nhw'n edrych**

Nod: ysgrifennu disgrifiad o berson a'i ddarllen i aelodau eraill o grŵp

Adnoddau: tâp fideo

Camau

1. Chwarae rhan fer o berson yn siarad ar fideo gyda'r sgrîn wedi'i duo.
2. Disgyblion yn ysgrifennu disgrifiad byr o'r person.
3. Chwarae'r tâp eto, y tro hwn gyda'r sgrîn wedi'i goleuo.
4. Rhannu'r dosbarth yn grwpiau o bump a phawb yn cael y cyfle i ddarllen disgrifiad ei gilydd.
5. Gofyn i'r dosbarth pa ddisgrifiad oedd agosaf ati - yn gyntaf ar lefel grŵp ac yna ar lefel dosbarth cyfan.

Nodyn: gellir ymestyn y gweithgaredd gan ofyn i'r disgyblion gynnig rhesymau am eu disgrifiadau, e.e. *Roedd hi'n swnio'n ...*

Gêm 5 Telepathi

Nod: darllen ar goedd/gwrando ar eraill

Adnoddau: pedwar darn darllen byr wedi'u paratoi ar dryloyw

Camau

1. Holi aelodau'r dosbarth os ydynt yn telepathic ac arddangos y pedwar darn darllen ar dryloyw.
2. Dewis un disgybl i fod yn medium ac i benderfynu pa ddarn darllen mae o/e/hi wedi'i ddewis.
3. Gweddill y dosbarth yn canolbwyntio am funud neu ddau i geisio dod i gasgliad ynghylch pa ddarn darllen sydd wedi'i ddewis ac yna ei ysgrifennu ar ddarn o bapur.
4. Disgyblion yn eu tro, yn darllen eu darn yn uchel a'r athro'n rhoi tic gyferbyn â phob darn fel y'i darllenir.
5. Ar ôl i bawb ddarllen ac ar ôl cyfri'r tics, y medium i hysbysu gweddill y dosbarth o ba ddarn yr oedd o/hi wedi'i ddewis. Ydy o/e/hi wedi llwyddo i fod yn telepathic?!

Gêm 6 Dwyn i gof

Nod: darllen ac atgynhyrchu'r hyn a ddarllenwyd yn gywir

Adnoddau: brawddeg/au wedi'u hysgrifennu ar ddarn o bapur

Camau

1. Darllen brawddeg/au neu baragraff wedi'u gludo ar y wal.
2. Cerdded yn ôl at y bwrdd ac ysgrifennu'r hyn a ddarllenwyd.
3. Ailadrodd hyn sawl gwaith gan beidio mynd â phen/papur gyda nhw at y wal.
4. Aelodau'r grŵp yn dod i gonsensws ynghylch fersiwn gywir a chynrychiolydd yn darllen y fersiwn orffenedig i aelodau eraill y dosbarth.

ASTUDIAETH 4

Ysgrifennu

Mae sylw cynyddol i gywirdeb iaith yn *Cwricwlwm 2000* (gweler *Datblygiad Iaith*, tud. 75) a dylai hynny gael ei adlewyrchu yn y modd y cyflwynir tasgau ysgrifennu i ddisgyblion. Canolbwyntia'r astudiaeth hon, fodd bynnag, ar ystod y tasgau y dylid eu darparu i ddisgyblion a hynny yng nghyd-destun llafaredd a darllen. Yn gyntaf, edrychwn ar ystod y tasgau fel y'u hamlinellir yn *Cwricwlwm 2000*.

Rhaglen Astudio Ysgrifennu, *Cwricwlwm 2000* - Ystod

- ymateb i amrywiaeth eang o symbyliadau
- ysgrifennu i ystod eang o bwrpasau
- defnyddio ystod eang o ffurfiau
- mynegi profiadau personol a dychmygus
- cyflwyno gwybodaeth a llunio darnau cofnodol-ffeithiol amrywiol
- mynegi barn wrth ymateb i ystod eang o symbyliadau print, gweledol a chyfrifiadurol ar amrywiaeth o bynciau
- ysgrifennu'n ffurfiol ac yn anffurfiol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd penodol gan amrywio'r ffurf a'r hyd yn ôl yr angen
- gwneud defnydd eang a phwrpasol o TGCh wrth ymgymryd ag ystod eang o dasgau

Llafaredd ac Ysgrifennu

Mae cymharu llafaredd ac ysgrifennu yn ein cynorthwyo i ddeall rhai anawsterau sydd yn wynebu disgyblion wrth iddynt fynd i'r afael â thasg ysgrifennu. Addaswyd y diagram isod o waith Byrne, (1991, tud. 3).

LLAFAREDD	YSGRIFENNU
Yn digwydd mewn cyd-destun gyda chyfeirio amlwg e.e. <i>'hwanna'n fan'na</i>	Yn creu ei gyd-destun ei hun ac felly'n gorfod bod yn hollol glir
Y siaradwr a'r gwrandawr mewn cyswllt â'i gilydd. Felly, cydadwaith yn bosibl	Darllenydd ddim ar gael. Felly, nid yw cydadwaith yn bosibl
Fel arfer, cyfathrebir â pherson/au pendant	Nid yw'r ysgrifennwr bob amser yn gwybod pwy yw darllenwyr ei waith
Mae adborth yn ddisgwyliedig ac ar gael, e.e. adborth llafar ar ffurf cwestiynau/atebion a hefyd ymatebion di-iaith, e.e. tynnu wyneb	Nid oes adborth ar gael yn syth. Rhaid i'r ysgrifennwr ddamcaniaethu ymateb/ion y darllenydd a'u hymgorffori yn y gwaith.
Mae llafaredd yn hyblyg yn yr ystyr y gellir addasu/newid yn unol â dealltwriaeth y gwrandawyr, h.y. disgwylir cydadwaith	Mae ysgrifennu'n barhaol. Gellir ei ddarllen sawl gwaith ac ar gyflymder sy'n addas i'r darllenydd
Yn aml, mae brawddegau'n anghyflawn. Ceir seibiant bob hyn a hyn ac ambell ebychiad etc.	Disgwylir brawddegau cyflawn, cysylltiol
Defnyddir ystod eang o strategaethau i gyfleu ystyr, e.e. iaith y corff, ebychiadau, ystumiau	Defnyddir strategaethau megis atalnodi, priflythrennu, tanlinellu etc.

Ystyriaethau

Ystyriwch y cwestiynau a'r atebion isod a gynigir gan Rames, (1983, tud.12-23)

1. Sut gall ysgrifennu gynorthwyo ein disgyblion i ddysgu Cymraeg yn well?

Rhaid wrth integreiddio'r sgiliau iaith fel bo'r dasg ysgrifennu'n rhan o broses ehangach sy'n cadarnhau gafael y disgyblion ar yr iaith. Ystyriwch yr enghraifft isod.

Tasg: Disgrifiwch y lleoedd gorau i dwristiaid ymweld â hwy yn ardal Abertawe.

Camau posibl

- trafod â'r disgyblion e.e. *Rydych chi'n llunio brochure ar gyfer denu twristiaid i ardal Abertawe. Pa ddau le rydych yn eu hargymell?*
- disgyblion yn llunio rhestr o'r lleoedd yr hoffen nhw eu cynnwys yn y *brochure*.
- mewn grwpiau, y disgyblion yn dweud pam eu bod wedi dewis eu lleoedd a chynnig rhesymau pam - pob grŵp i gytuno ar restr
- grwpiau i ddewis dau hoff le o'u rhestr
- pob grŵp yn adrodd yn ôl i weddill y dosbarth gan nodi'r lleoedd a ddewiswyd a chynnig rhesymau pam - athro/athrawes yn cofnodi ar y bwrdd gwyn/uwchdaflunydd gan sicrhau cyflwyno geirfa/patrymau iaith priodol
- ysgrifennu drafft o'r *brochure*
- darllen gwaith ei gilydd gan gynnig gwelliannau etc.
- ailddrafftio'r gwaith
- darllen eu gwaith yn ofalus a'i gywiro

2. Sut mae cael hyd i ddigon o dopigau?

Dadleua Raimes bod athrawon yn tueddu i symud yn rhy gyflym o un topig i'r llall “ ... the more they read on the topic, the more they learn about organizational structure and sentence structure; the more they discuss a topic, the more ideas they develop. Our problem isn't really finding enough topics; it's developing enough tasks from the good topics we have.”

I ba raddau y cytunwch â'r dyfyniad uchod?

3. Sut y gallwn ddarparu tasgau mwy diddorol ar gyfer disgyblion?

Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau elfen gyfathrebol yn y tasgau. Yn naturiol, gall y cyfathrebu hwn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig. Sut mae sicrhau elfen gyfathrebol yn y tasgau isod?

- llythyr at *agony aunt*
- dyddiadur personol
- adolygu ffilm
- cerdyn post
- stori yn diweddu gyda ...

4. Pwy sy'n mynd i ddarllen yr hyn mae disgyblion yn ei ysgrifennu?

Mae tueddiad i ddisgyblion ystyried gwaith ysgrifennu'n dasg i'w darllen a'i chywiro gan athro. Felly, nid oes cynulleidfa ehangach. Mae'n werthfawr darparu cynulleidfa. Ystyriwch y canlynol:

- yr athro'n cynorthwyo yn y broses trwy ddarllen a chynnig sylwadau ar y drafft gan beidio â chywiro camgymeriadau'n syth
- disgyblion yn cyfnewid drafftiau gan gynnig sylwadau
- grŵp o ddisgyblion yn darllen drafft neu'n gwranddo arno'n cael ei ddarllen yn uchel a chynnig sylwadau
- llythyr neu erthygl at y cylchrawn IAW/cylchgrawn ysgol neu ohebiaeth â disgyblion mewn ysgolion eraill ar y Rhyngryd etc.
- ysgrifennu at gynulleidfa ddychmygol, e.e. llythyr cais am swydd etc.

5. Sut mae cael y disgyblion i ysgrifennu ar y cyd?

Gellir gosod tasg megis, *Ysgrifennwch baragraff am eich hoff chwaraeon*, egluro beth rydych am iddyn nhw ei wneud a chynnig rhestr eirfa/patrymau iaith etc.

Dull arall posibl yw:

- disgyblion yn trafod beth yw eu hoff chwaraeon
- athro'n cynnig cymorth i rai grwpiau
- un disgybl ym mhob grŵp yn ysgrifennu nodiadau ac yn adrodd yn ôl i weddill y dosbarth
- wrth i'r adrodd yn ôl fynd rhagddo, yr athro'n cofnodi'r prif bwyntiau ar y bwrdd gwyn/uwchdaflunydd ac yn ychwanegu geirfa newydd os yn briodol
- disgyblion yn ymgymryd â'r dasg ac yna'n cyflwyno'r gwaith i ddisgybl mewn grŵp arall i'w ddarllen.

6. Faint o amser y dylid ei glustnodi ar gyfer ysgrifennu?

Cwestiwn anodd iawn i'w ateb oherwydd bod dysgu iaith yn broses integredig gyda'r sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu wedi'u gwau trwy'i gilydd. Gellir ateb y cwestiwn efallai trwy ystyried y broses ysgrifennu, sef:

- ystyried beth yw'r dasg
- ar gyfer pwy y'i hysgrifennir
- casglu deunyddiau/syniadau trwy bledu syniadau, ysgrifennu nodiadau, trafod ag eraill a darllen
- ystyried trefn y darn
- ysgrifennu drafft
- darllen y drafft yn feirniadol
- adolygu
- ailddrafftio
- cywiro

7. Beth i'w wneud ynglŷn â chamgymeriadau?

Mae pwyslais ychwanegol ar gywirdeb iaith yn *Cwricwlwm 2000*. Rhaid inni ymateb i'r gofynion newydd hyn. Mae Raimes yn cynnig rhai strategaethau y gallwn eu hystyried:

- mae camgymeriadau'n fodd o weld y broses ddysgu ar waith
- dylid ymateb i gamgymeriadau wrth gynllunio gwaith yn y tymor byr

- dylid clustnodi amser i ddisgyblion gywiro eu gwaith cyn i chi wneud hynny gan ystyried beth sy'n achosi camgymeriadau, e.e. diffyg gwybodaeth/dealltwriaeth ynteu blerwch etc.
- gellir llunio cynllun cywiro a sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol ohono

Ategir y pwyntiau isod gan awduron megis, Byrne (1991, tud.124) a Doff (1998, tud. 188). Dyma gynnig arweiniad byr ynglŷn â marcio a chywiro gwaith disgyblion

- dylid annog y disgyblion i gywiro eu gwaith eu hunain cyn ei gyflwyno i sylw'r athro
- dylid pwysleisio cyflawniad disgyblion yn hytrach na'u camgymeriadau
- ni ddylid cywiro pob camgymeriad; gall hyn dorri calon y dysgwr
- gellir pwysleisio ambell agwedd ar y tro, e.e. person/amser y ferf

Mae llawer o adrannau'r Gymraeg â chynllun marcio. Dylid sicrhau defnydd cyson gan bob aelod o'r adran o gynlluniau o'r fath. Dyma gynnig enghraifft:

SYMBOL	YSTYR	ENGHRAIFFT
S	camsillafu	S <i>Weles i'r bachgen yn <u>downsioe</u>.</i>
At	atalnodi	At <i>Dw in mwynhau gwylio <u>pêl-droed</u>?</i>
A	amser y ferf	A <i><u>Dw i'n</u> gweld y <u>pennaeth</u> ddoe.</i>
Tr	treigladd	Tr <i>Roedd ei <u>mam</u> o wrth y drws.</i>
^	rhywbeth ar goll	<i>Roedd y ferch yn <u>^</u> ac yn dal iawn.</i>
ll	paragraffu	<i>Diolch ... i mi. Hoffwn ...</i>

Hunanasesu

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu pwyslais ar hunanasesu. Dadleuir bod hunanasesu'n gyfrwng i godi safonau ac ar yr un pryd yn hwb i gymhelliant disgyblion.

Dylai hunanasesu fod yn dasg-benodol i alluogi'r disgyblion asesu eu gwaith yng nghydestun disgwyliadau a berthyn i dasg ysgrifennu arbennig. Cynigir enghreifftiau o daflenni hunanasesu i gyd-fynd â rhai o'r enghreifftiau o dasgau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.

Gweithgareddau Ysgrifennu

Dyma restr o weithgareddau ysgrifennu y dylid eu darparu ar gyfer disgyblion CA4. Enghreifftir camau ar gyfer cyflwyno rhai ohonynt ar y tudalennau sy'n dilyn.

- deialog – darbwylo rhieni i roi caniatâd i fynd i glwb nos
- llythyr cais am swydd rhan-amser
- adolygu ffilm
- dyddiadur profiad gwaith
- anfon E-bost at orsaf radio yn gwneud cais am chwarae record
- llunio rheolau ar gyfer y dosbarth
- ysgrifennu am yr ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6
- cerdyn post dychmygol o wlad benodol
- prosiect
- erthygl
- adroddiad
- adolygu llyfr/erthygl/ffilm/rhaglen deledu
- cerdd
- ysgrifennu neges/ffacs/E-bost
- stori

Gweithgaredd

A yw ystod y tasgau uchod yn cyflawni gofynion y Rhaglen Astudio?

Adolygu llyfr

Camau

1. Darllen y llyfr.
2. Adolygu'r iaith angenrheidiol, e.e.
 - *Enw'r llyfr/awdur ydy ...*
 - *Y prif gymeriad/au ydy ...*
 - *Fy hoff gymeriad ydy ... achos ...*
 - *Mae'r plot yn/Mae'n stori am ...*
 - *Fy hoff gymeriad ydy achos ...*
 - *Mwynheuais i/Fwynheuais i ddim ... achos roedd ...*
 - *Yn fy marn i mae ... yn ... achos ...*
 - *Rydw i'n meddwl bod ... yn ... achos ...*
3. Paratoi cyflwyniad llafar grŵp gan ddefnyddio'r patrymau uchod.
4. Tapio'r cyflwyniadau llafar.
5. Gwrando ar ei gilydd a chwblhau taflen asesu.
6. Ysgrifennu'r adolygiad.
7. Cwblhau taflen hunanasesu.
8. Darllen eu hadolygiadau i weddill y grŵp/dosbarth a/neu gyfnewid eu hadolygiadau a darllen gwaith ei gilydd.

Taflen hunanasesu

Wnes i:

- | | |
|---|----------|
| ● atalnodi'n gywir | Do/Naddo |
| ● paragraffu | Do/Naddo |
| ● amrywio patrymau brawddegol | Do/Naddo |
| ● ddefnyddio'r patrymau iaith a gyflwynodd yr athro | Do/Naddo |
| ● fynegi barn a chynnig rhesymau? | Do/Naddo |

Ysgrifennu dyddiadur profiad gwaith

Camau

1. Ar ôl bod ar brofiad gwaith, cyflwyno/adolygu'r prif eitemau iaith, e.e.
 - *Ble est ti/fuest ti ar brofiad gwaith?*
 - *Sut oeddet ti'n teithio yno?*
 - *Faint o'r gloch oeddet ti'n dechrau gweithio?*
 - *Fwynheuest ti? etc.*
2. Gwaith pâr/grŵp - cynnal sgwrs gan ddefnyddio'r cwestiynau uchod yn fframwaith.
3. Tasg gwranddo a deall o *Byd Gwaith* (Uned Iaith) darn 18 - Atodiad 4.
4. Ysgrifennu dyddiadur wythnos.
5. Cwblhau'r daflen hunanasesu

Taflen hunanasesu

Wnes i

- ddefnyddio'r patrymau iaith a gyflwynodd yr athro Do/Naddo.
- ddefnyddio *es i ... a roedd ...* etc. Do/Naddo.
- atalnodi'n gywir Do/Naddo.
- defnyddio paragraff newydd ar gyfer pob diwrnod Do/Naddo.
- fynegi barn a rhoi rhesymau? Do/Naddo.

Gweithgaredd

Lluniwch daflenni hunanasesu i gyd-fynd â'r enghreifftiau o dasgau ysgrifennu sy'n dilyn.

Ysgrifennu cerdyn post

Camau

1. Rhannu'r dosbarth yn grwpiau a darparu cyflenwad o brochures gwyliau iddynt.
2. Cyflwyno/adolygu:
 - Hoffwn i/ddim fynd i ... achos ...
 - Dw i/ddim eisiau mynd i ... achos
 - Mae ... yn edrych yn ...
 - Beth am ...?
 - Dw i'n cytuno/anghytuno.
3. Gwaith trafod mewn grŵp - penderfynu ar wlad i ymweld â hi.
4. Cyflwyno/adolygu:
 - Dw i yma yn ...
 - Mae'r ... yn ...
 - Torheules i ...
 - Bwytes i ...
 - Wela i chi ...
 - Dw i'n cael ...
 - Ddoe es i ...
 - Yfes i ...
 - Bydda i'n mynd i ...
5. Darllen cardiau post yn Pell ac Agos (Uned Iaith), tudalennau 23 a 24

Annwyl Mam a Dad,
Helo, rydw i'n aros mewn
gwesty hyfryd - y bwyd yn
neis iawn, lot o pasta i
gael. Mae'r tynnydd yn ffein,
dun glaw, haul pob dydd.
Mae ein hystafell yn neis
iawn - mae'n "ensuite". Mae'r
traeth yn agos i'r gwesty ac yn
brydferth iawn. Mae llawer o siopau
neis yma. Rhaid mynd - mae
Rebecca a fi yn mynd i'r disgo Reno.
Clare XXX

Mr. a Mrs. R. Meeson,
Esgair Wen,
Cumpengraig,
Felindre,
Llandysul,
Dyfed
Cymru.
SA44 57A

Annwyl Mam a Dad,
Sut gofych chi? Rydw i'n cael amser
da yma. Mae en grit! Mae'r
tynnydd yn boeth iawn yn Sbaen.
Mae'r bwyd yn wrych.
Mae gorffofa hardd o fy ystafell
wely. Rydw i'n siar o ystafell gyda
Phuap Iwail - Freya, Danise, Charlotte
a Rebecca Woods. Rydw i'n cael amser
gwych. Mae'n rhaid i mi fynd
nawr. Mae parti gmlaen.
Oddi With,
Julie XXX

Aberbanc Stores
Aberbanc,
Penrhinllan,
LLANDYSUL,
Dyfed,
Cymru.
SA44 5NP

6. Ysgrifennu cardiau post dychmygol o'r gwledydd y penderfynwyd arnynt yn y gwaith grŵp.
7. Annog disgyblion sy'n mynd ar eu gwyliau i anfon cerdyn post at y dosbarth ac yna eu harddangos.

Erthygl am beryglon cyffuriau

Camau

1. Gwyllo *IAW!*, 25.7.
2. Cyd-ddarllen ffeithiau am gyffuriau yn *NI*, tudalen 50.
3. Ymgymryd â Tasg 2, tudalen 51 - actio'r sgwrs.
4. Paratoi hysbyseb ar fideo i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc am beryglon cyffuriau gan ddilyn y camau isod:
 - rhannu'r dosbarth yn grwpiau o 4/5
 - trafod cynnwys yr hysbyseb gyda'r disgyblion
 - sgriptio'r hysbyseb
 - ymarfer trwy ddarllen yn uchel i'w gilydd gan sicrhau ynganiad cywir a goslef priodol
 - ffilmio
 - gwyllo cyflwyniadau grwpiau eraill ac ysgrifennu nodiadau i gasglu mwy o wybodaeth.
5. Ysgrifennu erthygl ar beryglon cyffuriau gan sicrhau bod y disgyblion yn:
 - llunio drafft
 - ei ddarllen yn feirniadol
 - ei ailddrafftio
 - ei gywiro.
6. Anfon yr erthygl at: ysgol arall, cylchgrawn, papur bro etc.

Prosiect - Ffasiwn

Camau

1. Darparu cyfres o wersi yn ymwneud â'r thema Ffasiwn yn cynnwys:
 - arolwg/holiadur
 - arddangos canlyniadau'r uchod ar ffurf graff
 - ysgrifennu sgwrs â chynllunydd enwog, e.e. Calvin Klein
 - ysgrifennu llythyr at berson enwog yn ei wahodd i sioe ffasiwn yn yr ysgol er mwyn codi arian at achos da
 - creu portffolio o ddillad newydd ar gyfer y mileniwm newydd wedi'u labelu â logo, prîs, maint, steil a lliwiau posibl
 - gwyllo fideo IAW! - *Treinyrs a Jîns* a llenwi grid gwybodaeth a holiadur
 - gwyllo *Pigion Rap*, Eitem 12, *Ffasiwn a Steil*
 - cynnal sioe ffasiwn yn yr ystafell ddosbarth a gwneud fideo a'i gwyllo darllen a deall *Cit Man U* - IAW!
 - llunio cwis ar ffasiwn
 - chwarae rôl trefnu mynd allan i barti neu ddisgo.
2. Gosod y dasg - *Ysgrifennwch brosiect am ffasiwn; annog y disgyblion i gynnwys tasgau tebyg i'r uchod.*
3. Disgyblion yn cwblhau ffurflen hunanasesu.
4. Arddangos y prosiectau a'u hanfon at gylchgrawn IAW!

Gweithgaredd

Lluniwch gamau tebyg i'r rhai uchod ynghyd â thafleuni hunanasesu ar gyfer eu defnyddio gyda'r topigau ysgrifennu isod:

- deialog – darbwylo rhieni i roi caniatâd i fynd i glwb nos
- llythyr cais am swydd ran-amser
- anfon E-bost at orsaf radio yn gwneud cais am chwarae record
- llunio rheolau ar gyfer y dosbarth
- ysgrifennu am yr ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6
- adroddiad
- adolygiad o lyfr/erthygl/ffilm/raglen deledu
- cerdd
- ysgrifennu neges/ffacs/E-bost
- stori

Llyfryddiaeth

- ACCAC (2000) *Cymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
- Byrne, D (1994) *Teaching Oral English, Longman*
- Byrne, D (1991) *Teaching Writing Skills, Longman*
- CBAC (1996) *Gwahaniaethu*
- CBAC (1994) *Meithrin Llafaredd yn y Dosbarth: Meithrin Sgiliau Gwrando*
- CBAC (19) *Pecyn Hyfforddi Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion*
- Doff, A (1998) *Teach English, Cambridge University Press*
- Estyn (1998) *Llawlyfr Arolygu Ysgolion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
- Harmer, J (1991) *The Practice of English Language Teaching, Longman*
- Jones, G.W. (1993) *Agweddau ar Ddysgu Iaith, CAI, Llangefni*
- Jones, GW (1997) *Llunyddiaeth, CAI, Llangefni*
- Martin, D (2000) *Practical Activities For Reluctant Learners - papur anghyoeddedig*
- Raimes, A (1983) *Techniques in Teaching Writing, Oxford University Press*
- SPAEM (1996) *Cynnydd yn y Gymraeg yn Ail Iaith, Gwasg y Goron*

Rhaglen Genedlaethol Hyfforddiant Mewn-swydd y Gymraeg

Agweddau ar Addysgu Cymraeg Ail Iaith

Cynradd (Cyfnodau Allweddol 1 a 2)

Meithrin Sgiliau Llafar | Developing Oral Skills

Meithrin Sgiliau Ysgrifennu | Developing Writing Skills

Meithrin Sgiliau Darllen | Developing Reading Skills

Cyflwyno Barddoniaeth | Introducing Poetry

Rôl yr Arweinydd Curriculum | Role of the Curriculum Leader

*Datblygu Cymraeg Pob Dydd yn yr Ysgol Gynradd | Developing Everyday Welsh
in the Primary School*

Defnyddio TCCb i Addysgu Cymraeg Ail Iaith | Using ICT to Teach Welsh Second Language

*Codi Safonau Ysgrifennu - Ymateb i Waith Disgyblion | Raising
Writing Standards - Responding to Pupils' Work*

Cynradd ac Uwchradd (Cyfnodau Allweddol 2 a 3)

Meithrin Cysylltiadau Cynradd - Uwchradd | Fostering Primary - Secondary Liaison

Uwchradd (Cyfnodau Allweddol 3 a 4)

Rheolaeth Adran

Meithrin Sgiliau Darllen: Datblygu Rbaglenni Darllen Annibynnol

Meithrin Llafaredd yn y Dosbarth:: Meithrin Sgiliau Gwranddo

Meithrin Llafaredd yn y Dosbarth: Y Continuum Cyfathrebol (Gwaith Grŵp)

Defnyddio'r Iaith Darged

Gwabaniaethu

Asesu a Chofnodi

Cynllun Gwaith Engreifftiol CA4, Byd Gwaith

Arfer Dda: llyfryn a fideo

Gellir prynu copïau o'r cyfrolau hyn trwy gysylltu â

Siop Lyfrau CBAC

245 Rhodfa'r Gorllewin

Caerdydd CF5 2YX

☎ 029 2026 5063 | 029 2026 5112

Ffacs 029 2026 5014



CBAC